# CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 1 Hydref 2020 hyd at 30 Medi 2021

## ANNUAL REPORT

## 1 October 2020 to 30 September 2021

Cymdeithas Elusennol Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn
LL77 7TW

**CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN**

Swyddfa'r Sir

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7TW

Rhif Elusen Gofrestredig. : 1174536

## ADRODDIAD BLYNYDDOL 1 Hydref 2020 hyd at 30 Medi 2021

## GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

### GWEITHRED YMDDIRIEDOLAETH

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn (Rhif Elusen Gofrestredig 1000818) ar 5 Mehefin 1990 ac mae gweithred yr Ymddiriedolaeth gyda'r dyddiad hwn arni yn nodi dyletswyddau, pwerau ac amodau y bydd rhaid i'r Ymddiriedolaeth gydymffurfio â nhw. Trosglwyddwyd asedau Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i Gymdeithas Elusennol Ynys Môn ar 1 Hydref 2019 (Rhif Elusen Gofrestredig 1174536).

### YMDDIRIEDOLWYR

Mae 30 Aelod etholedig Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd â 2 Ymddiriedolwr annibynnol etholedig yn gweithredu fel ymddiriedolwyr y Gymdeithas Elusennol. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Medi 2021 roedd yr Ymddiriedolwyr fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Trefor Lloyd Hughes MBE (Cadeirydd) | Llinos Medi Huws |
| Richard Owain Jones (Is-Gadeirydd) | Robert Griffith Parry OBE Frags |
| Richard Griffiths | Ieuan Williams |
| Glyn Haynes | Meirion Jones |
| Robin Wyn Williams | Nicola Fay Roberts |
| Eric Wyn Jones | Robert Llewelyn Jones |
| Bryan Owen | Richard Anthony Dew |
| Dafydd Roberts | Dafydd Rhys Thomas |
| Margaret Murley Roberts | Dylan Wyn Rees |
| Alun Roberts | Arwel Roberts |
| Carwyn Elias Jones | Kenneth Pritchard Hughes |
| Alun Wyn Mummery | Peter Standing Rogers |
| John Wyn Griffith | Lewis Davies (hyd at Mai 2021) |
| Vaughan Hughes | Gary Pritchard (o Mai 2021) |
| Aled Morris Jones | Jeffrey Evans (o Mai 2021) |
| Gwilym O Jones | |

Penodwyd dau ymddiriedolwr annibynnol ar 12 Hydref 2020:-

Michael Wilson (ymddiswyddodd ar 25 Ionawr 2021)
Greg Evans (Ymddiswyddodd ar 26 Ionawr 2021)

**SWYDDOGION**

| | | |
|---|---|---|
| **Ysgrifennydd** | - | **Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr – Cyngor Sir Ynys Môn), hyd ar 27 Medi 2021** |
| **Trysorydd** | - | **Mr Marc Jones (Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 – Cyngor Sir Ynys Môn)** |
| **Cyfreithiwr** | - | **Ms Lynn Ball (Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro – Cyngor Sir Ynys Môn), hyd ar 27 Medi 2021** |
| **Prif Weithredwr** | - | **Mrs Celyn Menai Edwards, o'r 27 Medi 2021** |

**CYNGHORWYR**

Y rhain oedd yn cynghori'r Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod:-

| | | |
|---|---|---|
| Bancwyr | : | HSBC Cyf<br>Stryd Fawr<br>Llangefni<br>LL77 7LU |
| Archwilwyr | : | W.J. Matthews a'i Fab<br>Cyfrifwyr Siartredig<br>11 - 15 Y Bont Bridd<br>Caernarfon<br>LL55 1AB |
| Rheolwyr Buddsoddi | : | HSBC Private Bank (UK) Limited<br>78 James's Street<br>Llundain<br>SW1A 1JB |

**STRWYTHUR LLYWODRAETHU A RHEOLI**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn gan Gyngor Bwrdeistref Ynys Môn, rhagflaenydd y Cyngor Sir, i weinyddu buddsoddiadau a brynwyd gyda'r arian a dderbyniodd y Cyngor gan Shell (UK) Ltd pan roddodd y gorau i redeg y Lanfa Olew ym Môn. Rhoddwyd yr arian hwn gan Shell (UK) Ltd dan Ddeddf Seneddol breifat - Deddf Glanfa Môn 1972, sef deddf a oedd yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor "i ddefnyddio'r arian yn un swydd er lles Ynys Môn neu ei thrigolion". Ar 1 Hydref 2019, newidodd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn i fod yn Gymdeithas Elusennol Ynys Môn.

Mae Cymdeithas Elusennol Ynys Môn yn cael ei rheoli gan 30 aelod Etholedig y Cyngor sydd yn gweithredu fel Ymddiriedolwyr unigol a chânt eu penodi o ganlyniad i gael eu hethol yn

Aelodau o'r Cyngor. Yn ogystal, mae Cyfansoddiad y Gymdeithas yn caniatáu penodi dau ymddiriedolwr annibynnol etholedig sydd â'r un hawliau a phwerau ag ymddiriedolwyr y Cyngor. Penodir pob ymddiriedolwr annibynnol etholedig am gyfnod o dair blynedd.

Cyflogodd Cymdeithas Elusennol Ynys Môn ei gyflogai cyntaf, y Prif Weithredwr presennol, Mrs Celyn Menai Edwards, ar 27 Medi 2021.

Mae Cyfansoddiad y Gymdeithas Elusennol yn caniatáu hefyd i unrhyw berson sydd â diddordeb mewn hyrwyddo pwrpasau elusennol y Gymdeithas i ddod yn aelod o'r Gymdeithas Elusennol. Gall aelodau bleidleisio ar benderfyniadau mewn cyfarfod cyffredinol neu ar benderfyniadau ysgrifenedig.

Cynhelir cyfarfodydd llawn, fel Cymdeithas Elusennol Ynys Môn, o leiaf ddwywaith y flwyddyn er mwyn penderfynu ar bolisi ac ar wariant am y flwyddyn. Mae gan y Gymdeithas Elusennol dri phwyllgor, gyda phob Aelod o'r Cyngor yn aelod o un ohonynt (mae Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn aelodau ex officio o bob un):-

> Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau, oedd â deng aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am weinyddu buddsoddiadau'r Gymdeithas trwy'r ymgynghorwyr buddsoddi, am faterion ynglŷn â'r eiddo sydd ym mherchenogaeth y Gymdeithas ac am faterion cytundebol eraill.
>
> Pwyllgor Grantiau Cyffredinol, oedd â deng aelod yn ystod y flwyddyn. Mae'n penderfynu ar raglen grantiau blynyddol a gyllidir o gyllideb refeniw'r Gymdeithas Elusennol a benderfynir gan y corff llawn ac a ddirprwyir i'r Pwyllgor hwn.
>
> Pwyllgor Adfywio, oedd â deng aelod yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn penderfyniad i neilltuo cyllid ar gyfer amcanion adfywio, mae'r Pwyllgor Adfywio yn penderfynu ar grantiau adfywio ac yn monitro cynnydd ar gynlluniau adfywio.

Mae Swyddogion y Gymdeithas Elusennol ac, ar adegau, swyddogion eraill y Cyngor Sir, yn rhoi cyngor i'r Gymdeithas Elusennol yn ei gyfarfodydd. Ychydig o benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo iddynt.

Mae'r gweithgareddau dyddiol, fel y'u cymeradwyir gan y Gymdeithas, yn cael eu gweinyddu ar ran y Gymdeithas gan Gyngor Sir Ynys Môn. Mae rhai nodweddion y broses ceisio am grant yn gyffredin i'r Gymdeithas hon a chronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor Sir er mwyn hwyluso'r broses i ymgeiswyr.

Mae'r risgiau sylweddol y mae'r Gymdeithas yn agored iddynt, fel sydd wedi eu hadnabod gan y Gymdeithas, wedi eu hadolygu a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

## AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Cyfyngir amcanion elusennol y Gymdeithas i les cyhoeddus a chyffredinol y bobl hynny sy'n byw ar Ynys Môn, yn cynnwys:-

> darparu mwynderau a chyfleusterau;
> cadwraeth adeiladau;
> cadw a gwarchod tir;
> gwarchod a diogelu'r amgylchedd;
> noddi cyhoeddiadau a phrosiectau ymchwil addysgol.

Cyrhaeddir y nodau hyn trwy gyfrannu tuag at wario ar wasanaethau sydd er budd y cyhoedd a thrwy roddi grantiau i gyrff elusennol a gwirfoddol.

Mae'r cyfyngiadau ar sut mae'r Gymdeithas yn gweithredu wedi eu nodi yng Nghyfansoddiad y Gymdeithas. Y prif bwerau yw hybu amcanion elusennol a gwneud trefniadau i bwrpas rheoli a gweinyddu'r Gymdeithas fel y gwêl yn ddoeth.

Mae gwaddol gan y Gymdeithas, y gellid ei wario ar yr amod bod dwy ran o dair o'r aelodau yn cymeradwyo penderfyniad i'r perwyl. Mae wedi mabwysiadu amcan tymor hir y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant. Mae'r incwm buddsoddi yn cyllido rhan o gostau rhedeg Oriel Ynys Môn a rhaglen grantiau blynyddol.

## POLISI DYRANNU GRANTIAU

Dyrennir grantiau o'r incwm buddsoddi blynyddol i elusennau, mudiadau gwirfoddol a chyrff lleol eraill ar gyfer prosiectau ar Ynys Môn. Mae'r rhain ar gyfer grantiau bach (llai na £8,000) ac mae'r Gymdeithas yn gwahodd ceisiadau am gyllid, unwaith y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Cyllidir grantiau mwy o'r cynnydd yng ngwerth cyfalaf y buddsoddiadau. Y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau sy'n penderfynu'r gwerth i'w ddyrannu, yn seiliedig ar berfformiad y gronfa yn y flwyddyn flaenorol a'r perfformiad a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dyrennir y grantiau mwy (dros £8,000) i sefydliadau sy'n cwrdd â dibenion elusennol y Gymdeithas ac mae'r Gymdeithas yn gwahodd ceisiadau am gyllid, unwaith y flwyddyn fel arfer, trwy hysbysebu yn y papurau lleol. Gwneir cais trwy ffurflen gais safonol.

Gwneir dyraniadau yn flynyddol i'r mathau canlynol o brosiectau:-

Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon (prosiectau cyfalaf bychain);
Neuaddau Pentref (costau rhedeg blynyddol);
Grantiau bach (grantiau bychain unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn llai na £8,000);
Grantiau mwy (grantiau mawr unwaith-ac-am-byth yn bennaf sydd yn fwy na £8,000).

## POLISI YNGLŶN AG ARIAN WRTH GEFN

Canlyniad y strategaeth ariannol a fabwysiadwyd yn 2009 yw nad oes angen rhagor ar arian cyfalaf wrth gefn ar wahân, heblaw i adnabod ymrwymiadau hanesyddol. Oherwydd gall rhai o'r ymrwymiadau ariannol gael eu gwneud dros gyfnod o fwy nag un flwyddyn ariannol, caniateir i'r arian wrth gefn cyffredinol fynd i ddiffyg ar yr amod fod y llif arian yn dod ag ef yn ôl i warged erbyn pryd y bydd yr ymrwymiad wedi ei anrhydeddu'n llawn.

Mae'r Gymdeithas yn ystyried fod lefel yr arian wrth gefn presennol yn ddigonol i ddarparu incwm buddsoddi yn y dyfodol ar gyfer taliadau grant a hefyd i dalu costau llywodraethu.

## PERFFORMIAD BUDDSODDI

Mae gan y Gymdeithas bwerau buddsoddi eang sy'n cynnwys prynu stociau, cyfranddaliadau, gwarantau ac eiddo o bob math, p'un a ydynt yn cynhyrchu incwm ai peidio â waeth beth fo'r risgiau cysylltiedig. Disgrifir y pwerau hyn yn y Weithred Ymddiriedolaeth.

Mae'r perfformiad hyd yma yn erbyn yr amcan tymor hir (h.y. y dylai gwerth y gwaddol dyfu yn ôl chwyddiant - wedi ei gyfrifo heb gynnwys gwerth y tir) fel a ganlyn:-

Penderfynwyd ar darged o £17,291m ar gyfer 30-9-21 (wedi'i addasu yn unol â'r Mynegai Pris Adwerthu) a'r gwir werth oedd £21.428m, sydd £4.137m yn uwch na'r targed. Mae hyn yn cymharu â phrisiad o £19.215m ar 31-9-20, a oedd £2.726m yn uwch na'r targed o £16,489m.

Incwm Buddsoddi:-

Ar 1 Hydref 2020, penderfynwyd ar darged o £673,900, ond llwyddwyd i ddenu £553,626, sydd £120,274 yn is na'r targed.

**Y perfformiad yn erbyn y meincnod**

Y strategaeth buddsoddi y cytunwyd arni ar gyfer y tymor hir yw denu 5% yn fwy na chyfradd cyfredol sylfaenol Banc Lloegr, gyda'r meincnod isod ar gyfer dyrannu asedau:-

| | | |
|---|---|---|
| Ecwitïau'r DU | 30% | (Gwirioneddol 27%) |
| Ecwitïau Tramor | 36.5% | (Gwirioneddol 59%) |
| Llog Sefydlog | 25% | (Gwirioneddol 4%) |
| Eraill | 6% | (Gwirioneddol 9%) |
| Arian Parod | 2.5% | (Gwirioneddol 1%) |

**DATGANIADAU ARIANNOL**

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir: Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau (FRS102) ac maent yn cydymffurfio â gweithred ymddiriedolaeth yr Elusen a'r gyfraith berthnasol.

Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol y Gymdeithas a'r Cyfrifon, a ddangosir ar dudalennau 7 - 17, gan gyfarfod yr Ymddiriedolaeth a gynhaliwyd ar.

**Cymeradwywyd gan y Gymdeithas ar :** 26. 07. 2022

**a llofnodwyd ar ei ran gan:** [signature]

## CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN

## DATGANIAD AR WEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 30 MEDI 2021

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol £ | Cronfeydd Cyfalaf £ | Cyfanswm £ | *2019/20 £* |
|---|---|---|---|---|---|
| **ADNODDAU I MEWN** | | | | | |
| **Incwm Buddsoddi** | 2 | | | | |
| **Difidend ac incwm sefydlog** | | 553,626 | - | 553,626 | *560,192* |
| Llog | | 123 | - | 123 | *44,465* |
| Incwm arall | | - | - | - | *2,904* |
| **Cyfanswm Adnoddau i mewn** | | **553,749** | **-** | **553,749** | ***607,561*** |
| **ADNODDAU WEDI EU GWARIO** | | | | | |
| **Costau cynhyrchu cronfeydd** | 3 | | | | |
| Costau Rheoli Buddsoddiadau | | 110,478 | - | 110,478 | *103,766* |
| Costau cyfreithiol a marchnata | | 4,852 | - | 4,852 | *7,182* |
| **Cyfanswm costau cynhyrchu cronfeydd** | | **115,330** | **-** | **115,330** | ***110,948*** |
| **Adnoddau net i mewn ar gael ar gyfer gwariant elusennol** | | **438,419** | **-** | **438,419** | ***496,613*** |
| **Gweithgareddau elusennol** | 5 | | | | |
| Grantiau er hyrwyddo amcanion yr elusen | | | | | |
| Cyngor Sir Ynys Môn - Oriel Ynys Môn | | 107,500 | - | 107,500 | *215,000* |
| Cyrff cymunedol a gwirfoddol | | 121,462 | - | 121,462 | *159,080* |
| Grantiau mwy | | - | 491,170 | 491,170 | *413,329* |
| Llai grantiau heb eu hawlio | | (166,921) | (129,830) | (296,751) | *-* |
| **Cyfanswm cost grantiau a gweithgareddau** | | **62,041** | **361,340** | **423,381** | ***787,409*** |
| **Llywodraethu** | 6 | | | | |
| Ffioedd a chostau | | 2,595 | | 2,595 | *3,125* |
| **Cyfanswm Gwariant Elusennol** | | **64,636** | **361,340** | **425,976** | ***790,534*** |
| **Cyfanswm adnoddau wedi eu gwario** | | 179,966 | 361,340 | 541,306 | *901,482* |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau net i mewn** | | **373,783** | **(361,340)** | **12,443** | ***(293,921)*** |
| Enillion / (Colledion) o ganlyniad i ailbrisiant a gwethiant asedau buddsoddi | 14 | | 2,519,230 | 2,519,230 | *(1,515,454)* |
| **Symudiadau net o granfeydd** | | **373,783** | **2,157,890** | **2,531,673** | ***(1,809,375)*** |
| Cyfanswm cyllid ddygwyd ymlaen 1 Hydref 2020 | | 354,573 | 19,214,776 | 19,569,349 | *21,378,724* |
| **Cronfeydd a gariwyd drosodd ar 30 Medi 2021** | | **728,356** | **21,372,666** | **22,101,022** | ***19,569,349*** |

## CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN

### Y FANTOLEN FEL AR 30 MEDI 2021

| | Nodyn | 2021 | *2020* |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Buddsoddiadau | 8 | 24,301,316 | *21,336,497* |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Dyledwyr ac incwm wedi ei gronni | 9 | 87,667 | *88,239* |
| Arian yn y banc | | 7,640 | *7,517* |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **95,307** | ***95,756*** |
| **Ymrwymiadau:** symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | | | |
| Credydwyr | 10 | (1,352,965) | *(623,285)* |
| Grantiau heb eu talu | 11 | (942,636) | *(1,239,619)* |
| **Cyfanswm ymrwymiadau** | | (2,295,601) | *(1,862,904)* |
| **Asedau / (Ymrwymiadau) Cyfredol Net** | | **(2,200,294)** | ***(1,767,148)*** |
| **Asedau Net** | | **22,101,022** | ***19,569,349*** |
| **Cronfeydd** | 12,13 | | |
| Cronfeydd heb eu cyfyngu | | | |
| : Y Gronfa Gyffredinol | | 728,356 | *354,573* |
| : Cyfalaf | | 24,239,218 | *21,719,988* |
| : Grantiau i'w dyrannu o'r cyfalaf | | (2,866,552) | *(2,505,212)* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cronfeydd** | | **22,101,022** | ***19,569,349*** |

<u>**CYMDEITHAS ELUSENNOL YNYS MÔN**</u>

**DATGANIAD LLIF ARIAN FEL AR 30 MEDI 2021**

| | Nody | 2020/21<br>£ | *2019/20*<br>*£* |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| **Arian net a ddarparwyd gan (defnyddiwyd mewn) weithgareddau gweithredu** | 15 | (108,485) | *(102,273)* |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau | | 554,198 | *573,297* |
| Elw o werthu fuddsoddiadau | | 26,119,330 | *14,015,625* |
| Prynu buddsoddiadau | | (26,699,911 | *(14,443,654* |
| **Arian net a ddarparwyd gan (defnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi** | | (26,383) | *145,268* |
| **Newid yn yr arian a chywerth arian yn y cyfnod adrodd** | | **(134,868)** | ***42,995*** |
| Arian a chywerth arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd, trosglwyddwyd o YEYM | | 453,902 | *410,907* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arian a chywerth arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd | | 319,034 | *453,902* |

**Cymeradwywyd gan**

**a llofnodwyd ar ei rhan gan** ……………………………………………

## NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

### 1. POLISÏAU CYFRIFO

(a) **Sail Gyfrifo:** Darparwyd y datganiadau ariannol yn unol â Chyfrifo ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n darparu eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon (FRS 102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019) – (SORP Elusennau (FRS102)), y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac Iwerddon (FRS102) a gweithred yr Elusen a'r gyfraith berthnasol.

Mae Cymdeithas Elusennol Ynys Môn yn cwrdd â diffiniad FRS102 o endid budd cyhoeddus. Cofnodir asedau a rhwymedigaethau yn y cyfrifon ar gost hanesyddol oni bai eu bod wedi eu hailddatgan yn unol â pholisi cyfrifo perthnasol.

**(b)** Mae'r **grantiau sy'n daladwy** yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon pan fo'r dyraniad wedi ei gymeradwyo gan yr Ymddiriedolaeth, a phan mae unrhyw amodau a roddwyd ar y cyllid wedi eu cadarnhau.

**(c)** Mae'r **incwm buddsoddi** wedi ei gynnwys yn y cyfrifon:-

- am adneuon tymor byr a balansau ar sail gronedig ddyddiol;
- am ecwiti - pan gyhoeddir stoc fel cyn-ddifidend;
- am renti – yn y flwyddyn y mae'n codi;
- am gronfeydd cyfun ac incwm arall, pan dderbynnir yr incwm.

Mae'r elfen gyffredin o stociau a dderbynnir yn lle difidend arian parod yn cael ei thrin fel incwm i'r gronfa.

**(ch)** **Gwariant:** Cynhwysir gwariant ar sail gronedig. Mae costau wedi eu rhannu i gategorïau pwrpasol yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol. Costau cynhyrchu incwm yw'r costau hynny sy'n codi'n uniongyrchol o wella, diogelu neu farchnata'r eiddo buddsoddi a chostau rheoli'r portffolio buddsoddiadau a chodi incwm buddsoddiadau.

Mae gwariant elusennol yn cynnwys grantiau i gyrff gwirfoddol a lleol a chyfraniadau i wasanaethau cyhoeddus. Mae hefyd wedi cynnwys gwariant uniongyrchol ar adeilad hanesyddol ym mherchnogaeth y Gymdeithas. Codir y rhain yn y flwyddyn y gwneir y penderfyniad i gynnig grant. Lle mae cyrff wedi cael eu hysbysu o fwriad i gynnig grant yn y dyfodol, nodir hynny heb eu cronni yn y cyfrifon.

Mae rheoli a gweinyddu yn cynnwys taliadau i drydydd partïon yn ymwneud â gweinyddu'r Ymddiriedolaeth.

**(d)** **Buddsoddiadau:** Mae buddsoddiadau'r Gymdeithas wedi eu prisio yn ôl pris canolig y farchnad ar gau'r farchnad ar ddyddiad y fantolen, ar wahân i fuddsoddiadau cyfun sydd wedi eu prisio yn ôl y pris bidio.

Mae enillion neu golledion o werthu ac ailbrisio buddsoddiadau yn cael eu codi neu eu rhoi fel credyd yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

**(dd)** **Eiddo Buddsoddi**: Gweler nodyn 7 i'r cyfrifon.

**(e)** **Cronfeydd**: Rhoddir eglurhad ar natur a phwrpas pob cronfa yn nodyn 12.

(f) **Darparu'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol:** Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn fod gan yr elusen ddigon o arian wrth gefn a bod yr elusen yn fusnes weithredol.

2. **INCWM BUDDSODDI**

Daw'r cyfan bron o incwm yr Ymddiriedolaeth o fuddsoddiadau yn nwylo'r Rheolwyr Buddsoddi. Mae eu ffioedd yn dibynnu ar berfformiad y buddsoddiadau ac mae incwm yn cael ei ragamcanu yn net o ffioedd. Roedd cyfanswm incwm o fuddsoddiadau (heb gynnwys rhenti tir) am y cyfnod cyfredol yn £550,144.

3. **COSTAU CYNHYRCHU CRONFEYDD**

Y rhain yw costau rheoli'r eiddo buddsoddi a'r ffi i'r Rheolwyr Buddsoddi:-

| | 30 Medi 2021<br>£ | 30 Medi 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Rheolwyr Buddsoddi | 110,478 | 103,766 |
| Costau Cyfreithiol | 4,852 | 7,182 |
| | 115,330 | 110,948 |

4. **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL Y GYMDEITHAS A THRAFODION CYSYLLTIEDIG**

Ni dderbyniodd unrhyw Ymddiriedolwr unrhyw gydnabyddiaeth ariannol yn ystod y flwyddyn.

Rheolwyr allweddol y Gymdeithas yw Prif Weithredwr y Gymdeithas (o'r 27 Medi 2021), (Prif Weithredwr y Cyngor (hyd at 27 Medi 2021), Swyddog Adran 151, Rheolwr Grantiau, Uwch Gyfrifydd a Chynorthwyydd Gweinyddol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 5. GRANTIAU

Isod mae'r gwariant elusennol uniongyrchol gan Gymdeithas Elusennol Ynys Môn:-

| | 30 Medi 2021 £ | Rhif | 30 Medi 2020 £ | Rhif |
|---|---|---|---|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn –** Oriel Ynys Môn | 107,500 | 1 | 215,000 | 1 |
| **Grantiau i gyrff Cymunedol a Gwirfoddol** | | | | |
| - Cyfleusterau Cymunedol a Chwaraeon a Chyrff Elusennol Eraill :- | 121,462 | 24 | 74,080 | 18 |
| - Costau Rhedeg Neuaddau Pentref | | | 85,000 | 32 |

| | 30 Medi 2021<br>£ | Rhif | 30 Medi 2020<br>£ | Rhif |
|---|---|---|---|---|
| **Grantiau Mwy** | 365,695 | | 413,329 | |
| -Clwb Snwcer Amlwch | 8,000 | | | |
| -Neuadd Goffa Rhyfel Amlwch | 8,313 | | | |
| -Ymddiriedolaeth Colofn Ynys Môn | 25,000 | | | |
| -Ffermwyr Ifanc Ynys Môn | 15,000 | | | |
| -Ardal Chwarae Llangaffo | 30,000 | | | |
| -Canolfan Gymuned Llanfechell | 10,737 | | | |
| -Clwb Pêl droed Cemaes | 34,978 | | | |
| -Cyngor Cymuned Cwm Cadnant | 20,000 | | | |
| -Cyfeillion Swtan | 14,640 | | | |
| -Cylch Meithrin Rhosclyn | 14,818 | | | |
| -Cymdeithas Cae Chwarae Rhosmeirch | 8,347 | | | |
| -Geidiaid Ynys Môn | 8,000 | | | |
| -Mencap Môn | 20,000 | | | |
| -Menter Mechell | 35,000 | | | |
| -Môn FM | 19,345 | | | |
| Parc y Plant Niwbwrch | 30,000 | | | |
| Pwyllgor Car Chwarae Bodffordd | 15,432 | | | |
| Hosbis Dewi Sant | 8,000 | | | |
| Tir Dewi | 8,000 | | | |
| Tŷ Gobaith | 8,084 | | | |
| Urdd Gobaith Cymru | 24,000 | | | |
| Grantiau Mawr 2019/20 | 125,475 | | | |
| -Anglesey Young Farmers | 30,000 | | | |
| -Môn FM | 47,475 | | | |
| -Urdd Gobaith Cymru | 48,000 | | | |
| -Neuadd Bentref Talwrn | | | 26,422 | 3 |
| -Criw Niwbwrch Cyf | | | 8,000 | 1 |
| -Cyngor Cymuned Llanfihangel Esceifiog | | | 16,000 | 1 |
| -Cybi Events | | | 50,000 | 1 |
| -Cymdeithas Chwaraeon a Chymdeithasol Amlwch | | | 16,367 | 1 |
| -Ymddiriedolaeth Gymunedol Llangoed a Phenmon | | | 15,700 | 1 |
| -3D Kids | | | 9,417 | 1 |
| -Cymdeithas Rhandiroedd Plas Road | | | 8,506 | 1 |
| -Clwb Rhwyfo Moelfre | | | 13,733 | 1 |
| -Bryngwran Cymunedol Cyf | | | 26,305 | 2 |
| -Digwyddiadau Sbarc CC | | | 8,101 | 1 |
| -Canolfan Gymunedol Llaingoch | | | 22,350 | 1 |
| -CIC Chwaraeon Cymunedol | | | 8,000 | 1 |
| -Clwb Pêl-droed Llangoed | | | 20,737 | 1 |
| -Pwyllgor Hen Ysgol Marianglas | | | 8,000 | 1 |
| -Caru Amlwch | | | 3,000 | 1 |
| -Age Well | | | 5,000 | 1 |
| -CAB | | | 11,000 | 1 |
| -Menter Môn | | | 25,000 | 1 |
| -MSparc | | | 7,000 | 1 |
| | | | | 1 |
| | | | | 1 |
| | | | | 1 |
| -Cynghrair Seiriol | | | 3,878 | 1 |
| -Ymateb 4x4 Cymru | | | 1,000 | |
| -Men's Sheds Amlwch | | | 5,000 | |
| -Pecynnau Adnoddau Teulu Medrwn Môn | | | 6,000 | |
| - Cynllun Leader Menter Môn | | | 63,813 | 1 |
| - Banc Bwyd Ynys Môn | | | 25,000 | 1 |
| | **720,132** | | **787,409** | |

Darparwyd yn y Datganiadau Ariannol cyfredol ar gyfer dyraniadau grantiau dyfarnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol blaenorol 2019/20, sef cyfanswm o £125,475. Mae'r cyfanswm yn cynnwys tri grant arwahân, sydd wedi cael eu dangos arwahân yn y dadansoddiad.

**Dyraniadau wedi'u hepgor**

Mae grantiau a ddyrannwyd ond ni hawliwyd o fewn y cyfnod cymhwyster, yn cael eu dileu a dychwelir y cyllid i'r gronfa gyffredin o'r gronfa cyfalaf ar gyfer eu dyrannu'n y dyfodol :-

| | 30 September 2021<br>£ | 30 September 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Sefydliadau Cymunedol | 100,371 | |
| Neuaddau Pentref | 66,550 | |
| Grantiau Mwy | 129,830 | |
| | **296,751** | - |

## 6. LLYWODRAETHU

Gweinyddir y Gymdeithas ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Ynys Môn, gyda dim costau gweinyddu i'r Gymdeithas. Y costau Llywodraethu yw'r ffioedd a delir i gyrff eraill am wasanaethau arbenigol a chostau teithio a chynhaliaeth aelodau. Nid oedd gan y Gymdeithas staff, hyd at 27 Medi 2021, pryd penodwyd Prif Weithredwr. Dyma fanylion y costau Rheoli a Gweinyddu:-

| | 30 Medi 2021<br>£ | 30 Medi 2020<br>£ |
|---|---|---|
| Ffi'r Archwiliwr – am wasanaethau Archwilio | 3,700 | 3,125 |
| Buddion cyflogai | 300 | |
| \|Amrywiol | (1,405) | |
| | **2,595** | **3,125** |

## 7. EIDDO BUDDSODDI

Yn ystod 1995, trosglwyddodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn ddau ddarn o dir yn Rhosgoch a Phorth Amlwch i'r Ymddiriedolaeth ac amcangyfrifiwyd eu bod yn werth £550,000 ar y farchnad. Roedd y tir hwn yn rhan o gytundeb terfynol cwmni Shell (UK) Cyf. (gweler Adroddiad yr Ymddiriedolwr) ac roedd yn destun yr un amodau â'r rheini a osodwyd ar yr arian gwreiddiol. Gwerthwyd rhan o'r tir ym Mhorth Amlwch yn 1995/96 a gwerthwyd gweddill y tir yn Rhosgoch yn ystod 2015/16.

Nid oes gwerth i weddill y tir ym Mhorth Amlwch, sef amcangyfrif pris y farchnad, ac mae'n cael ei ddynodi fel ased treftadaeth. Mae'n cynnwys un ochr i'r harbwr, sy'n dyddio'n ôl i'r 18fed ganrif, a hefyd Melin Mona, a adeiladwyd yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r tir yn cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac mae'r Gymdeithas wedi cytuno i fynediad cyhoeddus i'r Felin ac mae'n ystyried cynigion i gyflawni ei amcanion cadwraethol a'i amcanion diogelu'r amgylchedd yng nghyswllt y tir hwn.

Gwnaed y gwaith prisio yma gan Brisiwr y Cyngor fel ar 30 Medi 2021. Mae'r Prisiwr yn Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (MRICS) ac mae'n gyflogedig gan y Cyngor.

Nid oes gan y Gymdeithas Asedau Treftadaeth eraill, na pholisi i fynd ati i gaffael unrhyw asedau ychwanegol o'r fath.

## 8. BUDDSODDIADAU

Gellir dadansoddi'r buddsoddiadau yn y fantolen fel a ganlyn:-

| | 30 Medi 2021 £ | 30 Medi 2020 £ |
|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 851,451 | 5,820,855 |
| Ecwiti Byd-Eang | 14,221,622 | 6,820,563 |
| Llog Sefydlog | 6,659,896 | 5,976,391 |
| Dewisiadau Eraill | 2,256,953 | 2,272,303 |
| | 23,989,922 | 20,890,112 |
| Arian Parod | 311,394 | 446,385 |
| | **24,301,316** | **21,336,497** |

Mae'r buddsoddiadau yn nwylo'r rheolwyr buddsoddi ac yn enw enwebeion ac mae modd gwerthu'r holl ddaliadau yn ddidrafferth.

Yn y tabl isod ceir manylion ychwanegol am y math o fuddsoddiadau nad ydynt yn rhai arian parod a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod:-

| | |
|---|---|
| HSBC GIF Llywodraeth Byd-Eang (Incwm Sefydlog, GBP) | 8.19% |
| iShares Craidd MSCI EM IMI ETF (cronfa ecwiti,USD) | 6.13% |
| HSBC GIF Fyd-Eang Marchnadoedd ddatblygol Dyled Lleol (Incwm Sefydlog, USD) | 4.67% |
| Cronfa Eiddo Elusennol (Eraill, GBP) | 4.46% |
| HSBC Cronfa Fynegai Americanaidd (cronfa ecwiti GBP) | 4.26% |
| HSBC GIF Bond Corfforaethol Byd-Eang (incwm sefydlog, GBP) | 3.48% |
| HSBC MSC1 ETF Canada (cronfa ecwiti, GBP) | 2.96% |
| HSBC GIF Byd-Eang Marchnadoedd Datblygol (Incwm Sefydlog) | 2.85% |
| Bond Trysorlys UD Invesco 1- 3 (incwm sefydlog, GBP) | 2.52% |
| Cyfranddaliadau Cofrestredig Microsoft (cronfa ecwiti, USD) | 2.33% |
| Daliadau Eraill | 58.15% |

Mae arian parod sydd wedi'i fuddsoddi yn cynnwys symiau bach o arian tramor. Dangosir yr holl fuddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad.

Mae'r gwerthoedd hanesyddol cyfatebol ar 30 Medi 2021 fel a ganlyn: -

| | Cost Hanesyddol £'000 | Gwerth y Farchnad £'000 | Gwahaniaeth £'000 |
|---|---|---|---|
| Ecwiti'r DU | 718 | 851 | 133 |
| Ecwiti Byd-eang | 14,398 | 14,222 | (176) |
| Llog Sefydlog | 6,770 | 6,660 | (110) |
| Dewisiadau Eraill | 836 | 2,257 | 1,421 |
| | **22,722** | **23,990** | **1,268** |

| | Cost Hanesyddol £'000 | Gwerth y Farchnad £'000 | Enillion a Wireddwyd £'000 |
|---|---|---|---|
| Dygwyd Ymlaen | 20,519 | 20,891 | |
| Gwerthiannau ac Adbryniadau | (23,947) | (26,120) | 2,173 |
| Pryniannau a Chyhoeddi Cyfranddaliadau Ychwanegol | 26,700 | 26,700 | |
| Cyfanswm Enillion / (Colledion) yn y flwyddyn | | 2,519 | |
| | **23,272** | **23,990** | |

Cyfrifir enillion / (colledion) fel cyfanswm y gwahaniaeth rhwng incwm yn sgil gwerthu a chost hanesyddol. Cyfanswm yr enillion / (colledion) ar fuddsoddiadau yw cyfanswm yr enillion / (colledion) o werthu daliadau net o unrhyw addasiadau i gost hanesyddol plws enillion / (colledion) nad ydynt wedi eu gwireddu.

## 9. DYLEDWYR AC INCWM CRONEDIG

| | 30 Medi 2021 £ | 30 Medi 2020 £ |
|---|---|---|
| Incwm Buddsoddi Cronedig | 87,667 | 88,239 |
| | **87,667** | **88,239** |

## 10. CREDYDWYR A CHRONIADAU

| | 30 Medi 2021 £ | 30 Medi 2020 £ ££ |
|---|---|---|
| Ffi Rheoli Buddsoddiadau | 27,821 | 25,952 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1,318,594 | 594,783 |
| Arall | 6,550 | 2,550 |
| | **1,352,965** | **623,285** |

## 11. DYRANIADAU NA CHAWSANT EU TALU

Grantiau yw'r rhain a roddwyd yn y blynyddoedd blaenorol â'r ymgeiswyr heb hawlio'r cyllid eto. Fel arfer, mae'r grantiau hynny sydd ddim yn cael eu hawlio cyn pen pedair blynedd yn cael eu dileu, ac adlewyrchir hynny yn y ffigwr hwn.

Mae'r grantiau adfywio ar gyfer cynlluniau lle mae'r ymgeiswyr yn hawlio taliadau dros gyfnod o flynyddoedd.

## 12. CRONFEYDD

Mae'r arian parod mewn unrhyw gronfa, nad oes ei angen ar gyfer hylifedd tymor byr, wedi ei fuddsoddi dros dro gyda'r Rheolwyr Buddsoddi.

Y **Gronfa Gyfalaf** yw gwaddol y Gymdeithas ac mae'n waddol y mae modd ei wario. Mae'n cynnwys tir ac arian a dderbyniodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn gan Shell (UK) Cyf. pan roddwyd y gorau i weithredu Glanfa Olew ym Môn, ac a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 1990 a 1995, ynghyd â'r twf cyfalaf ar y symiau hyn. O bryd i'w gilydd, gellir rhyddhau cyfalaf i gyllido prosiectau penodol ar bleidlais mwyafrif o ddwy ran o dair o aelodaeth y Gymdeithas.

Mae'r symudiadau yn y Gronfa Gyfalaf yn ymwneud ag enillion a cholledion ar fuddsoddiadau, yr elfen perfformiad sy'n rhan o ffi'r Rheolwyr Buddsoddi ac unrhyw gostau ar gyfer gwella, diogelu neu farchnata'r tir fel y dangosir yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol.

Y balans ar y **Gronfa Gyffredinol** yw'r gwarged a'r diffygion a gronnwyd dros y blynyddoedd blaenorol, sef gwarged y mae'r Gymdeithas yn rhydd i'w ddefnyddio yn unol â'r amcanion elusennol.

Mae incwm o'r buddsoddiadau, a'r holl gostau eraill na chodir i'r gronfa cyfalaf yn y flwyddyn, yn ymwneud â'r Gronfa Gyffredinol ddigyfyngiad fel sy'n ymddangos yn y Datganiad ar Weithgareddau Ariannol. Mae'r dyraniadau a wneir yn rhaglen grantiau blynyddol y Gymdeithas hefyd yn ymwneud â'r gronfa wrth gefn hon.

## 13. DADANSODDIAD O SYMUDIADAU RHWNG CRONFEYDD

| | Balans a ddygwyd ymlaen o'r Ymddiriedolaeth £ | Adnoddau i mewn £ | Adnoddau wedi eu defnyddio £ | Enillion a Cholledion £ | Symudiadau ar Fuddsoddiadau £ | Balans i'w ddwyn ymlaen £ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gronfa Gyffredinol | 354,573 | 553,749 | (179,966) | | | 728,356 |
| Y Gronfa Gyfalaf | 21,719,988 | | | | 2,519,230 | 24,239,218 |
| Grantiau a Ddyrannwyd | (2,505,212) | | (361,340) | | | (2,866,552) |
| | **19,569,349** | **553,749** | **(541,306)** | | **2,519,230** | **22,101,022** |

## 14. DADANSODDIAD O'R ENILLION / (COLLEDION) AR AILBRISIADAU AC YN SGIL GWERTHU ASEDAU BUDDSODDI

| | 30 Medi 2021 £ | 30 Medi 2020 £ |
|---|---|---|
| (Colled) a wireddwyd ar werthu Ased Sefydlog | - | - |

| | | |
|---|---:|---:|
| (Colled) heb ei wireddu ar Ailbrisio | - | - |
| Enillion wedi eu gwireddu a heb eu gwireddu yng ngwerth Buddsoddiadau a Ddelir | 2,519,230 | (1,515,454) |
| | **2,519,230** | **(1,515,454)** |
| Adnoddau net sy'n dod i mewn | **12,443** | **(293,921)** |
| **Cyfanswm** | **2,531,673** | **(1,809,375)** |

## 15. CYSONI SYMUDIADAU NET YN Y CYLLID I LIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU

| | **30 Medi 2021**<br>**£** | **30 Medi 2020**<br>**£** |
|---|---:|---:|
| Symudiadau net yn y cyllid ar gyfer y cyfnod | 2,531,673 | (1,934,850) |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | |
| Difidendau, llog a rhent o fuddsoddiadau | (554,198) | (573,297) |
| Enillion wedi eu gwireddu a heb eu gwireddu ar waredu | (2,519,230) | 1,515,454 |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn dyledwyr | 572 | (31,360) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr | 432,698 | 921,780 |
| **Arian net a ddarparwyd gan (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu** | **(108,485)** | **(102,273)** |

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn unol â chyfraith elusennau Lloegr a Chymru, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o'r elusen, yr adnoddau mewnol a'r defnydd a wnaed o adnoddau'r elusen am y cyfnod. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwr:-

(a) ddewis polisïau cyfrifo addas a'u gweithredu'n gyson;
(b) dilyn dulliau ac egwyddorion Datganiadau Cymeradwy o Ymarferion Elusennau (SORP);
(c) gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol a doeth;
(ch) datgan a yw'r polisïau a fabwysiadwyd yn gyson gyda'r safonau cyfrifo perthnasol, yn amodol ar unrhyw amrywiadau a ddatgelir ac a esbonnir yn y datganiadau ariannol; a
(d) paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol onid yw'n amhriodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifol digonol sydd yn dangos, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n caniatáu iddynt sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau (Cyfrifo ac Adrodd) Elusennau a'r darpariaethau o fewn gweithred yr ymddiriedolaeth. Yr ymddiriedolwyr sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac, felly, am gymryd camau priodol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

**Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cymdeithas Elusennol Ynys Môn**

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Cymdeithas Elusennol Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn hyd 30 Medi 2021, sydd yn cynnwys y Datganiadau o weithredoedd ariannol, y Fantolen a nodiadau cysylltiedig gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i baratoi y datganiadau ariannol yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo y Deyrnas Unedig, gan gynnwys FRS 102, 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon' (Arferiad Cyfrifeg Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn, mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi golwg wir a theg ar gyflwr materion yr elusen ar 30 Medi 2021, ac am yr adnoddau cyllid a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferiad Cyfrifo Safonol Cyffredinol y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Sail ein barn**

Rydym wedi cynnal ein archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (DU)) a chyfraith cymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwiliad o'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r anghenion ethegol sydd yn gymwys i'n archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Ethegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau ethegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Rydym yn credu fod y tystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol a chymwys i baratoi sail i'n barn.

**Canlyniadau ynglŷn a busnes byw**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail busnes gweithredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i gyflawni, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Elusen i barhau fel busnes byw am gyfnod o o leiaf 12 mis o'r dyddiad awdurdodi a chyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol, gan gynnwys adroddiad yr ymddiriedolwyr, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwiliwr. Yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am y wybodaeth arall o fewn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn ni ar y datganiadau ariannol yn ystyried y wybodaeth arall ac, heblaw i'r helaeth fod wedi ei nodi'n benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn datgan unrhyw ganlyniadau o sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, mae gennym gyfrifoldeb i ddarllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried os oes anghysondeb sylweddol rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu sydd fel arall yn ymddangos yn sylweddol anghywir. Os daw yn ymwybodol o unrhyw gamfynegiant sylweddol ymddangosiadol neu anghysondebau, mae'n ofynnol arnom i benderfynu os oes camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall. Os down i gasgliad , ar sail y gwaith a gwblhawyd fod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth ychwanegol yma, mae'n ofynnol arnom i ymadrodd y ffaith.

Nid oes gennym ddim i ymadrodd mewn cyswllt â hyn.

**Materion yr ydym angen datgan arnynt trwy eithriad**

Yn sgil yr wybodaeth a dealltwriaeth yr elusen a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod ein harchwiliad, nid ydym wedi adnabod camfynegiant sylweddol yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Ni does gennym ddim i ddatgan ynglyn â'r materion canlynol lle mae Deddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni ddatgan i chwi os, yn ein barn:

- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw ffordd berthnasol â'r datganiadau ariannol; neu
- nad yw cofnodion cyfrifo cymwys wedi eu cadw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol mewn cytundeb â'r cofnodion ariannol a'r adroddiadau; neu
- nid ydym wedi derbyn yr oll o'r wybodaeth a'r eglurhad oedd ei angen ar gyfer yr archwiliad.

**Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr**

Fel yr eglurir yn llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr, yr ymddiriedolwyr sydd yn gyfrifol am baratoi y datganiadau ariannol ac am foddhau eu hunain eu bod yn rhoi golwg wir a theg ac am y rheolau mewnol mae'r ymddiriedolwyr yn cysidro'n angenrheidiol i alluogi paratoad o ddatganiadau ariannol sydd yn rhydd o gamosodiad sylweddol, boed hynny yn deillio o dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi y datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu, fel yn gymwys, materion perthnasol i allu'r elusen i barhau a defnyddio y sail busnes byw o gyfrifo os nad yw'r ymddiriedolwyr un ai wedi penderfynu i gau yr elusen neu roi gorau i weithredu, neu heb fod gyda dewis rhesymol ond i wneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol**

Rydym wedi cael ein penodi fel archwiliwr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein amcanion yw i dderbyn sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny wedi ei achosi drwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwiliwr sydd yn cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchaf o sicrwydd, ond nid yn gwarantu y buasai archwiliad wedi ei chynnal yn unol ag ISAs (DU) yn darganfod camddatganiad sylweddol, os yw yn bod pob adeg.

Gall camosodiadau godi o dwyll neu  gamgymeriad, a byddent yn cael eu cysidro yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y buasai'n rhesymol i ddisgwyl iddynt effeithio dewisiadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau yma.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll:

- Sicrhaodd y partner ymgysylltu fod gan y tim ymgysylltu ar y cyd y cymhwysedd, y galluoedd a'r sgiliau priodol i nodi neu gydnabod diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau cymwys;
- Gwnaethom nodi'r deddfau a'r rheoliadau sydd yn berthnasol i'r cwmni trwy drafodaethau â chyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac o'n gwybodaeth fasnachol a'n profiad o'r sector;
- Gwnaethom ganolbwyntio ar gyfreithiau a rheoliadau penodol yr oeddem o'r farn a allai gael effaith sylweddol uniongyrchol ar ddatganiadau ariannol neu weithrediadau'r cwmni, gan gynnwys deddfwriaeth fel Deddf Cwmnïau 2006, deddfwriaeth trethiant, diogelu data, gwrth-lwgrwobrwyo, cyflogaeth, amgylcheddol a deddfwriaeth iechyd a diogelwch;
- Gwnaethom asesu graddau'r cydymffurfiad â'r deddfau a'r rheoliadau a nodwyd uchod trwy wneud ymholiadau gan reolwyr ac archwilio gohebiaeth gyfreithiol, a
- Roedd deddfau a rheoliadau a nodwyd yn cael eu cyfleu o fewn y tim archwilio yn rheolaidd ac roedd y tim yn parhau i fod yn effro i achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy gydol yr archwiliad.

Gwnaethom asesu tueddiad datganiadau ariannol y cwmni i gamddatganiad perthnasol, gan gynnwys cael dealltwriaeth o sut y gallai twyll ddigwydd, trwy:

- Wneud ymholiadau gan reolwyr ynghylch ble roeddent o'r farn bod tueddiad i dwyll, eu gwybodaeth am dwyll gwirioneddol amheus a honedig;
- Ystyried y rheolaethau mewnol sydd ar waith i liniaru risgiau twyll a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Er mwyn mynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy ragfarn rheoli a diystyru rheolaethau, rydym yn:

- Perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl;
- Profi cofnodion cyfrifo ar gyfer trafodion anarferol;
- Asesu a oedd dyfarniadau a thybiaethau a wnaed wrth bennu'r amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl;

- Ymchwilio i'r rhesymeg y tu ôl i drafodion sylweddol neu anghyffredin.

Mewn ymateb i'r risg o afreolaidd-dra a diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gwnaethom ddylunio gweithdrefnau a oedd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Cytuno ar ddatgeliadau datganiadau ariannol i ddogfennau ategol sylfaenol;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sydd yn gyfrifol am lywodraethu;
- Ymholi'r rheolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygu gohebiaeth â Chyllid a Thollau EM, rheoleiddwyr perthnasol a chynghorwyr cyfreithiol y cwmni.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn ein gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod. Po fwyaf y caiff deddfau a rheoliadau eu dileu o drafodion ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddem yn dod yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio. Mae safonau archwilio hefyd yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sydd yn ofynnol i nodi diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau i ymholi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl.

Gall fod yn anoddach canfod camddatganiadau materol sydd yn codi oherwydd twyll na'r rhai sydd yn codi o gamgymeriad oherwydd gallent gynnwys cuddio neu gydgynllwynio yn fwriadol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau ni ar gyfer archwiliad y datganiadau ariannol ar gael ar wefan y 'Financial Reporting Council' ar: [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities].

Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n adroddiad yr archwiliwr.

**Defnydd ein adroddiad**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei wneud ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol â Adran 144 o'r Ddeddf Elusennau 2011 a'r rheoliadau o dan Adran 154 y Ddeddf hwnnw. Rydym wedi ymgymryd a'r gwaith archwilio fel y gallwn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen ar y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad yr archwiliwr ac i ddim pwrpas arall. Hyd at eithaf â ganiateir trwy'r gyfraith, nid ydym yn derbyn na chymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw yr elusen ac ymddiriedolwyr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac an y farn yr ydym wedi ffurfio.

WJ Matthews a'i Fab

W J Matthews a'i Fab
Archwiliwr Statudol
Cyfrifwyr Siartredig
11-15 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB

Dyddiad: 26/07/2022